

Annwyl Weinidog

## **Dyletswydd Adran 6 bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau**

Diolch am eich llythyr dyddiedig Tachwedd 4, 2019 am y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau fanylach, 'dyletswydd adran 6 ar gyfer awdurdodau cyhoeddus'.

Rwy'n nodi bod yn rhaid i fy swyddfa, o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, 'geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag sy'n gyson â chyflawni fy swyddogaethau statudol yn gywir, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny'.

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd a6, mae'n ofynnol i mi ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau wrth weithredu fy musnes o ddydd i ddydd, yn cynnwys mewn cynllunio, polisïau, rhaglenni a phrosiectau.

Mae hefyd yn ofynnol i mi adrodd ar yr hyn yr wyf wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019.

## **Fy ymagwedd tuag at adrodd yn ystod y flwyddyn hon**

Rwy'n croesawu eich awgrym y dylai adrodd, ble bynnag mae hynny'n bosib, fod yn rhan o fy systemau adrodd cyffredin ac y dylai fod yn gymesur â maint a natur sefydliad. Gan gadw hyn mewn golwg rwyf wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad byr hwn i gydymffurfio â dyddiad cau diwedd 2019 ac ymgorffori adroddiad llawnach yn fy adroddiad blynyddol 2019-20 a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2020.

Sylwaf o'r canllawiau bod gweithgareddau fy swyddfa'n dod o dan y categori adrodd lleiaf a'i bod yn ofynnol i mi adrodd ar amcanion 1, 4, 6 o'r Cynllun Adfer Natur Cymru.

Mae'n bleser gennyf roi'r adroddiad byr hwn ar fy ngweithrediadau a'm gweithgareddau o dan y tri amcan hyn, a lle mae hynny'n berthnasol byddaf yn parhau i arwain, cynorthwyo a

herio fy nhîm a chyrrff cyhoeddus i ymgorffori dyletswydd a6 yn ein holl weithgareddau yn y dyfodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sophie Howe', enclosed in a thin black rectangular border.

**Sophie Howe**

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

**Rhagfyr 2019**



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales

## **Adroddiad Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ddyletswydd Adran 6 Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016**

### **Cyd-destun - Ni a'n gofod**

Tîm bychan o ryw 20 o bobl ydyn ni, wedi ein lleoli ar drydydd llawr llety ar brydles, mewn adeilad o swyddfeydd yng nghanol Caerdydd heb fynediad i, na chyfrifoldeb am dir na gofod y tu allan. Tra nad yw fy ngweithgareddau'n ymwneud yn uniongyrchol â bioamrywiaeth ac/neu reoli tir rwy'n cydnabod bod gan fy swyddfa, yn anuniongyrchol, ran fawr i'w chwarae mewn cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus ar eu cyfraniad i wella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau. Rwyf hefyd yn cydnabod y gallaf, er mewn ffordd fach yn unig, arwain drwy esiampl drwy hybu diwylliant ac arferion gwaith yn fy Swyddfa sy'n cynorthwyo gofynion y Ddeddf.

### **Yr hyn mae fy swyddfa'n ei wneud dros Gymru**

Fel [Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru](#), fy nyletswydd gyffredinol yw hybu egwyddor datblygu cynaliadwy. Rwy'n hyfforddwraig a ffrind i gyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac unrhyw un a fedr helpu i gyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Rwy'n cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i groesawu eu dyletswydd a gwella pob agwedd ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol holl boblogaeth Cymru.

Rwyf wedi dewis defnyddio fy nyletswydd gyffredinol i wneud gwahaniaeth yn ystod fy nhymor drwy osod pedwar pwrpas strategol:

Pwrpas 1 – Amlygu a gweithredu ar y materion a’r heriau mawr sy’n wynebu cenedlaethau’r dyfodol.

Pwrpas 2 - Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i ddefnyddio’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Pwrpas 3 – Creu mudiad dros newid.

Pwrpas 4 – Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo’r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill.

## **Beth mae fy nyletswydd yn ei gynnwys?**

Hyrwyddo’r egwyddor datblygu cynaliadwy (gan gynnwys y pum dull o weithio), yn benodol i weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt. At y diben hwnnw, monitro ac asesu i ba raddau y mae’r nodau llesiant a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu gwireddu.

I gyflawni fy nyletswydd gyffredinol, mae gennyf ystod o swyddogaethau a [phwerau penodol](#):

- Adran 18 (a) Dyletswydd gyffredinol – Hyrwyddo’r egwyddor datblygu cynaliadwy
- Adran 18 (b) Dyletswydd gyffredinol - Monitro ac asesu i ba raddau mae amcanion a osodwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu gyflawni
- Adran 19 (a) Pŵer - Rhoi cyngor neu gymorth i gyrff cyhoeddus (sy’n cynnwys rhoi cyngor ar y newid yn yr hinsawdd)
- Adran 19 (b) Pŵer - Rhoi cyngor i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- Adran 19 (c) Pŵer - Rhoi cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â pharatoi eu cynllun llesiant lleol
- Adran 9 (d) Pŵer - Rhoi unrhyw gyngor neu gymorth arall i unrhyw berson arall sydd ym marn y Comisiynydd yn cymryd camau a allai gyfrannu at gyflawni’r Nodau Llesiant.
- Adran 19 (e) Pŵer - Annog arfer gorau ymhlith cyrff cyhoeddus wrth iddynt gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â’r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- Adran 19 (f) Pŵer - Hybu ymwybyddiaeth ymhlith cyrff cyhoeddus o’r angen i gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â’r egwyddor Datblygu Cynaliadwy
- Adran 19 (g) Pŵer - Annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda’i gilydd a gyda phersonau eraill os gallai hyn eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant
- Adran 19 (h) Pŵer – Chwilio am gyngor panel ymgynghorol mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau’r Comisiynydd

- Adran 20 i 22 – Pŵer i gynnal adolygiadau a gwneud argymhellion

Mae gen i hefyd ddyletswydd i roi cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar eu hasesiadau llesiant a chynlluniau drafft a phwerau i dderbyn copïau o adroddiadau ac i bobl ymgynghori â mi ar wahanol achlysuron.

## **Cynnydd ar gyflawni amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru hyd yn hyn yn 2019, sut mae fy nhîm yn arwain drwy esiampl ac yn hybu diwylliant ac arferion gwaith sy'n cynorthwyo gofynion y Ddeddf**

Fel yr eglurwyd uchod, mae natur a gweithgareddau busnes fy swyddfa'n golygu nad yw llawer o'r canllawiau ar adrodd a awgrymwyd yn berthnasol i'n hamgylchiadau. Rydw i, fodd bynnag, wedi adolygu'r canllawiau adrodd ac wedi rhoi sylwadau, ac wedi darparu enghreifftiau o'n cyfraniad i ddyletswydd a6 o dan bob amcan perthnasol isod.

### **Cynllun Adfer Natur Cymru Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymgorffori bioamrywiaeth mewn penderfyniadau a wneir drwyddi draw ar bob lefel**

Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws eich sefydliad am y modd yr ydych, fel sefydliad, yn cyfrannu at weithrediadau.

Dau o fy mhedwar pwrpas strategol yw: *Pwrpas 3 - Creu mudiad dros newid a Phwrpas 4 – Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill.*

Disgwyliaf i fy holl dîm gael dealltwriaeth dda o'r gwaith yr ydym yn ei wneud i hybu cynnydd Cymru tuag at y nodau llesiant a defnyddio pob cyfle iddynt gyfrannu'n bersonol. I helpu gyda hyn yn ein cyfarfodydd tîm-cyfan misol rydyn ni'n edrych yn fras ar ein holl gyhoeddiadau allweddol er mwyn cynyddu gwybodaeth a rhannu syniadau am yr hyn y mae pob un ohonom yn ei wneud neu'n medru ei wneud i gyfrannu at y mudiad dros newid, a gweithredu yn ogystal â thrafod, fel y nodir yn ein Deddf. Yn 2019 mae hyn wedi cynnwys trafodaethau ar ein cyhoeddiadau *'Taith tuag at Gymru Gydnerth'* a'r *'Cynllun 10 pwynt i ariannu Argyfwng Hinsawdd Cymru'*.

### **Cynllun Adfer Natur Cymru Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd**

Fel rhan o fy ngwaith eleni mae fy swyddfa wedi adolygu amcanion 44 corff cyhoeddus yng Nghymru ac wedi rhoi cyngor ac arweiniad ar y camau y dylent fod yn eu cymryd i gyflawni'r nod 'Cymru Gydnerth'. Mae'r cyngor a roddwyd i bob corff cyhoeddus ar gael ar gais.

Mae fy adroddiad ar Genedlaethau'r Dyfodol yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys argymhellion pellach ar gyflawni'r nod hwn.

Eleni rwyf hefyd wedi gweithio gyda'r Llywodraeth i ddiwygio polisi cynllunio yng Nghymru gan sicrhau fod y fframwaith newydd yn talu sylw i'r nod 'Cymru Gydnerth'. Hefyd, rwyf wedi cynorthwyo swyddogion i fesur ac asesu'r Rhaglen Tai Arloesol sydd yn awr yn cynnwys nifer o gynlluniau peilot sy'n cynorthwyo creu cartrefi ar gyfer pobl ac ar gyfer natur.

Byddwch hefyd yn ymwybodol o fy ymyrraeth ym mater ffordd liniaru'r M4, lle gwneuthum ddefnyddio fy mhwerau i roi cyngor a her i'r Llywodraeth ar yr effaith negyddol y byddai adeiladu'r ffordd hon yn ei gael ar y nod 'Cymru Gydnerth'.

Tra nad yw swyddogaethau fy swyddfa'n cynnwys darparu gwasanaethau ecosystem yn uniongyrchol, rydyn ni'n cydnabod y cysylltiad rhwng ecosystemau iach, datgarboneiddio, lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau.

Ar ddatgarboneiddio, lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau:

- Bob blwyddyn yn fy adroddiad blynyddol, mae gen i fesurau yn eu lle i leihau ac adrodd ar y modd yr wyf yn datgarboneiddio fy ngwaith.
- Cynhyrchodd fy swyddfa gyfanswm o 21 tunnell o nwyon tŷ gwydr drwy wastraff, trydan a theithio yn 2018-19. Mae 70% o allyriadau carbon fy nhîm yn dod fel canlyniad i deithio'n ymwneud â gwaith. Rwy'n gwneud yn iawn am ein hallyriadau carbon drwy roi rhodd bob blwyddyn i elusennau Coed Cadw a Maint Cymru i amlygu'r gwaith da a wneir drwy'r cynlluniau hyn a dangos ein hymrwymiad i reoli'n egniol a chyfrifol ein hallyriadau carbon.
- Annog gwaith di-bapur – Rydyn ni'n rhedeg system TG yn ein swyddfa sy'n seiliedig ar gwmwl ac mae ein dibyniaeth ar argraffu'n lleihau bob blwyddyn.
- Cynorthwyo newid moddol - Yn 2018-19 gwelwyd gostyngiad o 44% mewn milltiroedd ceir, tra i filltiroedd busnes o drafndiaeth gyhoeddus gynyddu o 41%.
- Cynorthwywyd staff i brydlesu Cerbydau Allyriadau Isel lawn - yn 2018-19 cyflwynais y polisi hwn i gynorthwyo staff.
- Mae gan fy Swyddfa gronfa feiciau a gofod i storio beiciau - mae llawer o fy staff yn beicio i'r gwaith yn rheolaidd.
- Sefydlaes bolisi 'Gweithio ar Unrhyw Adeg mewn Unrhyw Le' o'r diwrnod cyntaf un. Mae hyn yn lleihau angen y tîm i deithio heb angen.
- Yn 2019 cofrestrais fy swyddfa gyda Siarter Teithio Iach Caerdydd o dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd.

- Mae cyfarfodydd yn yr awyr agored a chyfarfodydd cerdded yn nodwedd gyson o ddiwylliant ein swyddfa. Maent yn ein cadw'n actif, yn helpu ein llesiant a'n cysylltiad â natur.
- Rydyn ni'n edrych am gadwyni cyflenwi moesegol wrth ddod o hyd i nwyddau a gwasanaethau i'n swyddfa megis ar gyfer fy nghontract cyflenwi trydan a glanhau'r swyddfa. Mae gennym siop onestrwydd Masnach Deg yn fy swyddfa.
- Gwnaethom gynorthwyo Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gaffael Crysau-T Masnach Deg ar gyfer Cynhadledd Flynyddol ar Ddatgarboneiddio.
- Nid oes gennym ofod allan yn yr awyr agored ond rydyn ni wedi llenwi ein swyddfa â phlanhigion a 'mur gwyrdd'.

## **Cynllun Adfer Natur Cymru Amcan 6: Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni**

Fel Comisiynydd a Swyddog Cyfrifon, fi sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rwyf wedi dirprwyo cyfrifoldeb am sicrhau bod y ddyletswydd a6 yn cael ei monitro a'i hadolygu i fy Nghyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol sy'n adrodd i mi yn rheolaidd.

Yn ychwanegol at fy ymgyfraniad ac ymgysylltiad dwys ag arbenigwyr a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli natur a bioamrywiaeth ar ddarnau penodol o waith, rwyf hefyd wedi sefydlu panel trydydd sector (yn cynnwys WWF) sy'n darparu mewnbwn i fy ngwaith.

Parthed fy mholisiau gweithle fy hunan mae gennym bolisi gwirfoddoli ac yn 2020 awgrymwyd ein bod yn defnyddio'r Polisi i annog a chynorthwyo cyfranogiad gwirfoddolwyr mewn gweithredu ar fioamrywiaeth mewn cymunedau lleol. Byddaf yn adrodd ymhellach ar hyn yn fy Adroddiad Blynyddol 2019-20.

## **Cyfraniadau eraill a wnaethpwyd gan fy Swyddfa i annog bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystem i Gymru a'r byd**

- **Partneriaeth gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru fel rhan o fy rhaglen Y Gallu i Greu i ddatblygu'r daith tuag at 'Gymru Gydnerth'**

Mae'r adnodd hollgynhwysfawr hwn wedi cymryd 18 mis i'w ffurfio ac mae'n darparu siop un stop ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n awyddus i gyfrannu at y nod llesiant hwn.

Mae'n diffinio'r nod a sut mae'n cysylltu â gofynion statudol eraill yn cynnwys Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'n cynnwys adrannau penodol ar:

- 1: Bioamrwyiaeth a Phridd: Cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol drwy reoli tir mewn dull priodol i greu ecosystemau iach gweithredol
- 2: Man Gwyrdd Naturiol: cynorthwyo cydnherthedd cymdeithasol a llesiant cymunedol
- 3: Gwybodaeth o Natur: Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach gweithredol
- 4: Ansawdd Dŵr ac Aer: Cynorthwyo cydnherthedd ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwylt a phobl
- 5: Defnyddio Adnoddau Naturiol: medru addasu i amgylchedd sy'n newid lle mae angen defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

Mae'n sefydlu galluogwyr ac analluogwyr a fydd yn cael effaith ar gyflymder y cynnydd tuag at gyflawni'r nod.

Mae'n awgrymu'r hyn y gall corff cyhoeddus ei wneud - newidiadau syml, sut i fod yn fwy anturus a pherchnogi eich uchelgais, ynghyd ag enghreifftiau ac astudiaethau achos.

Mae'n darparu dolenni i enghreifftiau ac adnoddau eraill.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn ar y 'Daith Tuag at Gymru Gydnerth' yma

<https://futuregenerations.wales/cy/a-resilient-wales/>

### • Rydyn ni wedi datblygu cynllun 10 Pwynt i ariannu Argyfwng Hinsawdd Cymru

Mae'r papur hwn yn cyflwyno man cychwyn ar gyfer y trafodaethau hynny - i arbenigwyr, cyrff cyhoeddus eraill, unigolion ac, o bwys, i'r Llywodraeth i ddatgan pa fath o fuddsoddiad sydd, yn eu barn, yn ofynnol. Rhaid i waith gael ei gychwyn ar unwaith i gyd-fynd â'r lefel gofynnol o fuddsoddiad eleni a dylid ymgymryd â gwaith mwy manwl ochr yn ochr â hyn i adnabod y model ariannu a buddsoddi hirdymor. Yn dilyn y cyngor hwn roedd y gyllideb ddrafft wedi cynnig cynnydd sylweddol ar gyfer yr argyfwng hinsawdd a natur, yn cynnwys dyraniad o £50 miliwn ychwanegol ar gyfer natur.

Manylion llawn yma:

<https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2019/06/Cynllun-10-Pwynt-i-Ariannu-Argyfwng-Hinsawdd-Cymru-Adroddiad-Manwl.pdf>



- **Rydyn ni wedi gweithio gydag Ymddiriedolaethau Natur Cymru ar ganllawiau ‘Seilwaith Gwyrdd - catalydd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yng Nghymru’**

Roedd yr adroddiad arbennig hwn gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru’n cynnwys:

Gweledigaeth Seilwaith Gwyrdd i Gymru, enghreifftiau o Seilwaith Gwyrdd, yn amlinellu sut y gall buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd fod yn ffordd dda o gyfrannu i bob un o’r nodau llesiant.

Gellir cael manylion llawn yma:

[http://www.wtwales.org/sites/default/files/wtw\\_green\\_infrastructure\\_welsh\\_final.pdf](http://www.wtwales.org/sites/default/files/wtw_green_infrastructure_welsh_final.pdf)

## **Adolygiad o ddyletswydd a6**

Mae fy nhîm yn cwrdd yn flynyddol bob Ionawr i gytuno ar ein rhaglen waith a’n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol sy’n dod. Bydd hwn yn gyfle naturiol i drafod sut y byddwn yn ymgorffori ein dyletswydd a6 yn ein gweithgareddau busnes.



**Sophie Howe**

**Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru**

**Rhagfyr 2019**